TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Diploma mewn Cynnal a Chadw, Gosodiadau a Chomisiynu Peirianneg Lefel 3




**Yn gryno**

Mae'r cwrs Lefel 3 hwn, sydd wedi'i achredu gan City & Guilds, yn adeiladu ar yr wybodaeth a'r sgiliau a enillwyd ar Lefel 2. Mae'n berffaith ar gyfer technegwyr cynnal a chadw mewn amgylcheddoedd peirianneg neu'r rhai sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y maes hwn.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

Rydych chi'n rhan o waith cynnal a chadw cyfarpar peiriannol mewn amgylcheddoedd peirianneg, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys ymchwilio i wallau ac atgyweirio mecanweithiau a systemau hydrolig a niwmatig.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch chi'n dysgu am:

· Iechyd a diogelwch peirianneg

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

· Egwyddorion peirianneg

· Egwyddorion cynnal a chadw, gosodiadau a chomisiynu peirianneg

· Cynnal a chadw systemau peiriannau

· Cynnal a chadw systemau hydrolig

· Cynnal a chadw systemau niwmatig

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Disgwylir y bydd gennych chi feddylfryd peiriannydd proffesiynol yn yr amgylchedd dysgu. Disgwylir i chi weithio'n ddiogel a meddu ar agwedd frwd at ddatrys problemau a dysgu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl gorffen y cwrs hwn, gallech chi symud ymlaen i ddiwydiant neu gwrs HNC (yn amodol ar gymwysterau a phrofiad)

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd gofyniad i chi wisgo cyfarpar diogelu personol ar gyfer pob agwedd ymarferol ar eich cwrs yn ystod amgylchedd y gweithdy.